EUSMUNC10

Cynnal amgylchedd gwaith diogel mewn adeiladu rhwydwaith cyfleustodau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel i weithio ynddo. Gallai fod yn berthnasol i weithrediadau adeiladu rhwydwaith ar gyfer un cyfleustod neu mewn amgylchedd amlbwrpas. Mae hyn yn cynnwys monitro diogelwch a diogeledd yn barhaus yn ystod gwaith arferol a chymryd camau i wneud unrhyw sefyllfaoedd, gweithgareddau, technegau, gweithdrefnau, defnyddio cyfarpar neu offer neu leoliadau peryglus yn ddiogel.

Mae'n cynnwys nodi peryglon neu arferion gwaith a'u cyfeirio at bobl ddynodedig, bod yn effro i amodau peryglus neu dorri mesurau diogelwch, a'u hasesu, a'r angen i wisgo dillad diogelwch.

Mae'r Safon hon ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â chynnal amgylchedd gwaith diogel wrth adeiladu rhwydwaith cyfleustodau mewn amgylchedd un neu fwy nag un cyfleuster.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal asesiad risg safle-benodol ar gyfer eich maes gwaith a’i adolygu yn unol â gweithdrefnau’r cwmni
2. defnyddio mesurau rheoli a nodwyd yn yr asesiad risg safle-benodol
3. gweithio mewn ffordd ddiogel sy'n sicrhau nad ydych yn peryglu eich hun, pobl eraill na'r amgylchedd
4. dewis, gwirio cyflwr, defnyddio a storio’r cyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer y dasg
5. dilyn gweithdrefnau'r cwmni ar unwaith os bydd argyfwng
6. sicrhau bod peiriannau a chyfarpar yn addas i’r diben
7. cydosod, paratoi a defnyddio peiriannau a chyfarpar mewn modd diogel
8. cynnal mynedfeydd ac allanfeydd diogel i leoliadau gwaith ac oddi yno
9. sicrhau bod offer iechyd a diogelwch mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben
10. atal pobl heb awdurdod rhag mynd i’r safle gwaith yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad.
11. cynnal diogelwch y safle drwy fonitro parhaus
12. defnyddio gweithdrefnau cymeradwy os bydd argyfwng
13. dilyn gweithdrefnau’r sefydliad a gweithdrefnau gweithredol ar gyfer cyfleu gwybodaeth i bobl eraill
14. cadw cofnodion mewn systemau gwybodaeth sefydliadol yn unol â gofynion gweithredol a sefydliadol
15. holi’r bobl ddynodedig am unrhyw amgylchiadau lle mae’n ymddangos bod gwybodaeth yn anghywir
16. cyfnewid gwybodaeth â phobl briodol yn unol â gweithdrefnau gweithredol
17. rhoi gwybod i bobl ddynodedig am unrhyw sefyllfaoedd lle mae angen ymyrraeth ychwanegol
18. cyfeirio problemau a chyflyrau y tu hwnt i'ch cyfrifoldeb at y bobl benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau cymeradwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. prif gyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol a sut i gydymffurfio â hi
2. prif gyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai o dan y ddeddfwriaeth amgylcheddol
3. sut i gynnal ac adolygu asesiadau risg safle-benodol
4. arferion gweithio a allai dorri iechyd a diogelwch gan gynnwys gweithgareddau, gweithdrefnau, defnyddio deunyddiau neu offer a thechnegau gweithio a ddefnyddir
5. llinellau adrodd, rolau, cyfrifoldebau a lefelau awdurdod y cwmni
6. pwy yw’r bobl ddynodedig o fewn gweithdrefnau’r gwaith a'r gweithdrefnau iechyd a diogelwch
7. nodi a defnyddio gweithdrefnau diogel ar gyfer trin deunyddiau peryglus a deunyddiau nad ydynt yn beryglus
8. gweithdrefnau cofnodi ac adrodd am ddamweiniau sefydliadol
9. ystod a defnydd cyfarpar diogelu personol ar gyfer y gweithgaredd gwaith a gweithdrefnau ar gyfer gwirio bod cyfarpar diogelu personol (PPE) yn addas i’r diben
10. gweithdrefnau adrodd statudol, sefydliadol ac mewn argyfwng
11. y rheoliadau dylunio a rheoli adeiladu cyfredol a sut maent yn effeithio ar eich maes gwaith
12. deddfwriaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer arferion gweithio diogel o ran peiriannau, cyfarpar a’r amgylchedd gwaith
13. sut i sicrhau bod peiriannau a chyfarpar yn addas i’r diben
14. sut i gynnal mynedfeydd ac allanfeydd diogel i leoliadau gwaith ac oddi yno
15. sut i nodi man cyfyng a ble mae gan leoliad gwaith y potensial i ddod yn fan cyfyng, y peryglon sy'n gysylltiedig â hynny a'r gweithdrefnau i'w dilyn
16. pwysigrwydd rhoi mesurau rheoli ar waith ar gyfer risgiau a nodwyd
17. sut i fonitro diogelwch y safle ac ymateb i unrhyw ymddygiad anniogel
18. gofynion sefydliadol ar gyfer storio a defnyddio cyfarpar diogelu personol yn ddiogel
19. gweithdrefnau brys cymeradwy
20. sut i gadarnhau dealltwriaeth a gwirio gwybodaeth a dderbynnir am gywirdeb, dilysrwydd ac ystyr, a phwysigrwydd gwneud hynny
21. pwysigrwydd dehongli a dilyn cyfarwyddiadau yn gywir
22. pwysigrwydd cadarnhau bod pobl eraill yn deall cyfarwyddiadau a roddir

gennych, a sut i wneud hynny

23. dulliau o gofnodi gwybodaeth ar lafar, yn ysgrifenedig ac ar gyfrifiadur
24. gwybodaeth y mae angen ei darparu i eraill yng nghyswllt iechyd, diogelwch a diogeledd y safle
25. ffynonellau gwybodaeth yng nghyswllt diogelwch a diogeledd a sut i gael gafael arnynt
26. pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir, mewn fformat addas i'r diben, ac o fewn amserlenni a nodwyd
27. pwrpas llwybrau archwilio data a sut i'w defnyddio a'u cynnal
28. polisïau cyfrinachedd y sefydliad

EUSMUNC10

Cynnal amgylchedd gwaith diogel mewn adeiladu rhwydwaith cyfleustodau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | MUNC02 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Adeiladu Rhwydwaith Dŵr, Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau, Adeiladu Rhwydwaith Nwy |
| **Cyfres/Set** | Gweithrediadau Adeiladu Rhwydwaith Aml-Gyfleustodau |
| **Geiriau Allweddol** | cynnal a chadw, diogel, diogelwch, cyfleustodau, cyfleustodau, rhwydwaith, adeiladu, gweithrediadau, nwy, LPG, hydrogen, dŵr, aml-gyfleustod |